CAIS ADDYSG CYNRADD/UWCHRADD AM GLUDIANT CYNORTHWYDIG O'R CARTREF I YSGOL

[Defnyddiwch BRIF LYTHRENNAU a chwblhewch yr holl fanylion perthnasol mewn inc DU]

Blwyddyn Ysgol: MEDI _____ i ORFENNAF _____

Enw'r Ysgol _____

MANYLION Y DISGYBL

Cyfenw _____ **Gwryw / Benyw (ticiwch)** G _____ B _____

Enwau Cyntaf _____

Dyddiad Geni __ __ / __ __ / __ __ **Blwyddyn ysgol bresennol (e.e Bl.9)** _____

Cyferiad Cartref _____
Llawn _____
_____

Côd Post _____ **Rhif ffôn** _____

MANYLION Y RHIENI / GWARCHEIDWAID

Teitl [Mr/Mrs/Ms/Miss] _____ **Cyfenw** _____
Enw Cyntaf _____ **Perthynas i'r plentyn** _____
Cyferiad _____
(os yn wahanol i'r uchod) _____
_____

Côd Post _____ **Rhif ffôn** _____

Pam ydych yn ymgeisio am gludiant cynorthwyedig? **(ticiwch)**

Disgybl yn byw dros 3 milltir o'r ysgol addas uwchradd agosaf _____

Disgybl yn byw dros 2 filltir o'r ysgol addas cynradd agosaf _____

Arall (Nodwch beth) _____

[Os nad yw'r ysgol uchod yr ysgol agosaf i gartref y disgybl, nodwch y rheswm dros eich dewis]

MANYLION CLUDIANT

Enw'r safle bws/man casglu lle hoffech i'r disgybl gael ei gasglu (gadewch yn wag os nad ydych yn siwr)

_____ **A yw hwn yn fws ysgol/gwasanaeth bws lleol/tacsi?(dilëwch fel sy'n briodol)**

Os yw taith yn cynnwys newid bws/cerbyd, rhowch wybodaeth debyg am yr ail daith

_____ **A yw hwn yn fws ysgol/gwasanaeth bws lleol/tacsi?(dilëwch fel sy'n briodol)**

Datganiad: Darllenwch a llofnodwch y datganiad hwn ar ôl cwblhau'r ffurflen, os gwelwch yn dda;

1. Hyd y gwn/gwyddom, mae'r holl wybodaeth a roddir yn gywir a gwir.
2. Rwyf/rydym yn awdurdodi Awdurdod Addysg Lleol(AALl) Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i wirio'r wybodaeth hon os dymunant.
3. Nodaf/wn y bydd y wybodaeth hon yn cael ei chadw ar system gyfrifiadurol yn unol â'r Ddeddf Gwarchod Data.
4. Byddaf/wn yn ysgrifennu at Swyddog Cludiant Ysgol yr AALl ar unwaith os bydd yr amgylchiadau a nodir ar y ffurflen hon yn newid mewn ffordd sy'n effeithio'r cymhwyster am gludiant ysgol cynorthwyedig i'm plentyn.
5. Cytunaf/wn i ddychwelyd unrhyw docyn bws mewn perthynas â'm plentyn (plant) ar gais yr AALl os nad yw'r plentyn yn gymwys i dderbyn cludiant cynorthwyedig bellach.
6. Rwyf/rydym wedi darllen a deall y Canllawiau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol drosodd.
7. Cytunaf/wn fod y disgybl uchod yn dilyn y Cod Teithio Cynylliad Cymru (www.codteithio.org)

Llofnod _____ **Dyddiad** _____

[Pwysig: Bydd unrhyw hawliad y drwgdybir ei fod yn dwyllodrus yn cael ei gyfeirio i Adran Archwilio'r Cyngor Bwrdeistref Sirol ar gyfer ymchwiliad]

Rhaid anfon yr cais, wedi cwblhau, i:

TRAFNIDIAETH ADDYSG, ADRAN YR AMGYLCHEDD, DE FFORDD TY ABATY,
YSTAD DDIWIDIANNOL WRECSAM, WRECSAM, LL13 9PW. Tel.01978 292056 Fax :01978 297095

Defnydd Swyddfa'n Unig:

Cyf y disgybl: _____ Rheswm cymwys: _____ Pellter _____

Derbyniwyd y cais: __ __ / __ __ / __ __ Taith 1 _____ Taith 2 _____

Yn dechrau: __ __ / __ __ / __ __

CANLLAWIAU CLUDO RHWNG Y CARTREF A'R YSGOL AR GYFER Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2010-2011

HAWL I GLUDIANT CYNORTHWYEDIG RHWNG Y CARTREF A'R YSGOL

Isod, ceir crynodeb o bolisi'r Cyngor Bwrdeistref Sirol ar ddarparu cludiant cynorthwyedig rhwng yr ysgol a'r cartref. Bwriedir iddo fod yn ganllaw i rieni sy'n dymuno gwneud cais am deithio cynorthwyedig ac nid yw'n ddatganiad terfynol o Bolisi'r Cyngor. Mae'n cyfeirio at yr holl ddisgyblion a'r myfyrwyr sydd mewn addysg lawn amser ac sydd o dan 19 oed ar ddechrau'r flwyddyn ysgol.

Dewis Rhieni

Ar y cyfan, mae'r polisi hwn yn seiliedig ar y pellter i'r ysgol ac er bod gan rieni'r hawl i ddewis anfon eu plant i ysgol arall, dylent fod yn ymwybodol fod hawl i gludiant yn fater ar wahân sy'n parhau i'w gael ei asesu ar sail y pellter i'r ysgol.

Meini Prawf y Ddarpariaeth

Bydd Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn darparu cludiant cynorthwyedig rhwng y cartref a'r ysgol yn yr amgylchiadau canlynol:

i) pan fo plentyn yn byw dros ddwy filltir o'r ysgol addas cynradd agosaf;
ii) pan fo plentyn yn byw dros dair milltir o'r ysgol addas uwchradd agosaf.

Estyn y Ddarpariaeth Leiaf

Mae'r AALl bellach mewn sefyllfa i ystyried ceisiadau:

i) pan fo plentyn, sydd â rhieni'n derbyn Cymhorthdal Incwm neu Gredyd Teulu, yn byw dros 2.5 milltir o'r ysgol uwchradd agosaf;
(ii) i'r ysgol gyfrwng Cymraeg agosaf (p'un ai yw'n naturiol neu'n ddynodedig) neu'r ysgol wirfoddol agosaf o dan y meini prawf a nodwyd;
(iii) an gred y Cyngor Bwrdeistref Sirol fod y ffordd i'r ysgol yn beryglus;
ii) (iv) pan fo angen i blentyn gael cludiant am resymau meddygol ac nid oes cludiant cyhoeddus addas ar gael;
(v) pan fo udiant i ysgol a nodwyd yn hanfodol yn natganiad Anghenion Addysgol Arbennig plentyn. Byddai hyn fel arfer am resymau meddygol, cymdeithasol neu addysgol a byddai'n cael ei ystyried yn hanfodol yng nghyd-destun meini prawf eraill a nodir yn y polisi hwn.
(vi) pan fo angen i blentyn gael cludiant am resymau meddygol ac nid oes cludiant cyhoeddus addas ar gael;

Bernir mai ysgol addas yw'r ysgol agosaf sy'n darparu addysg ar gyfer oedran a gallu perthnasol disgybl; yr ysgol gyfrwng Cymraeg agosaf (p'un ai yw'n naturiol neu'n ddynodedig) neu'r ysgol wirfoddol agosaf.

Seddau Rhatach

Gall yr AALl ddarparu cludiant rhatach pan nad yw disgybl yn gymwys ar sail y meini prawf uchod ond pan ellir ei roi ar lwybr cludo presennol sydd â seddau gwag. Yn yr amgylchiadau hyn:

(i) y gost yw £50 y tymor, yn daladwy gan rieni, ac yn amodol ar adolygiad blynyddol.
(ii) pan fo amgylchiadau'n rheoli, gellir tynnu'r tocynnau teithio hyn yn eu hôl ar fyr rybudd, gydag ad-daliad pro-rata.

Fodd bynnag, dan Ddeddf Cludo 1995, ni ellir rhoi prisiau gostyngol pan fo cludiant gwasanaeth cyhoeddus yn mynd ar hyd llwybr ysgol ar amseroedd cyfleus ar gyfer dechrau a gorffen y diwrnod ysgol.

Cyfrifoldeb Rhieni

Mae gan rieni gyfrifoldeb dros:

i) fynd â'u plant i'r ysgol ac oddi yno pan nad ydynt yn gymwys i dderbyn cludiant am ddim;
ii) wneud cais am gludiant am ddim os yw eu plentyn yn gymwys;
iii) roi gwybod i'r AALl a'r ysgol am unrhyw amgylchiadau newydd a allai effeithio ar y cludiant;
iv) sicrhau bod eu plentyn yn barod ac yn aros am gludiant ar yr amser ac yn y lle priodol. Cyfrifoldeb y rhieni yw mynd â'r plentyn i'r cerbyd a'i gasglu o'r cerbyd;
v) sicrhau bod ymddygiad eu plentyn yn dderbyniol yn gymdeithasol tra defnyddir cludiant ysgol.

Meini Prawf Oedran

Mae'n ofynnol i'r AALl ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion cymwys o oed ysgol gorfodol yn amodol ar y canlynol:

i) Nid yw'r AALl yn darparu cludiant i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgolion Meithrin neu Ddosbarthiadau Meithrin yn dair oed. Darperir cludiant o ddechrau'r flwyddyn ysgol pan fydd y plentyn yn cael ei ben-blwydd yn bump oed.

ii) Ar hyn o bryd mae'r AALl yn cludo disgyblion sy'n hŷn nag oed ysgol gorfodol yn rhad ac am ddim i'r ysgol neu'r coleg addas agosaf, ar lwybrau sydd wedi'u comisiynu i ddarparu cludiant.

Darparu Cydymaith

Gall yr AALl ddarparu cydymaith ar gyfer disgyblion â datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig. Darperir cydymaith ar ôl i swyddogion perthnasol ystyried anghenion unigol disgyblion neu grwpiau o ddisgyblion a natur y drafnidiaeth sydd ar gael.

Ymddygiad

Tra teithir ar gludiant ysgol, gall unrhyw gamymddygiad gan ddisgyblion a allai effeithio ar ddiogelwch disgyblion, gyrwyr, cymdeithion a/neu ddefnyddwyr ffordd eraill arwain at gosb. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd disgyblion yn agored i reolau disgyblu arferol eu hysgol. Gallai'r cosbau a roddir am gamymddwyn ar gludiant ysgol gynnwys cael eu gwahardd o'r ysgol a rhag derbyn cludiant.

Ysmygu ar Gerbydau

Ni chaniateir ysmygu ar unrhyw gerbyd a gontractir i'r Cyngor ar gyfer cludo disgyblion ysgol i'r ysgol ac oddi yno. Bydd gyrwyr yn rhoi enwau unrhyw ddisgyblion sy'n torri'r rheol hon i Bennaeth yr ysgol dan sylw. Rhoddir awdurdod gan y Pennaeth i ymdrin â'r materion hyn.

Dull o Gludo

Bydd yr egwyddorion canlynol yn berthnasol wrth benderfynu pa fath o gludiant sydd ei angen:

i) yr angen am gludiant arbenigol.

iii) Anghenion Addysgol Arbennig disgybl, fel a ddiffinnir yn natganiad disgybl.

Ym mhob achos, bydd defnydd effeithiol o adnoddau'n rheoli pa fath o gludiant a geir (yn amodol ar yr uchod). Gellir darparu cludiant drwy wasanaethau cludo cytundeb ysgol neu'r gwasanaethau cludo cyhoeddus presennol a fydd, ynghyd â'r math o gludiant (bws, bws mini, trên, tacsi ayb) yn cael ei benderfynu yn ôl pa mor gost-effeithiol ydyw). Mewn rhai achosion gall un bws cytundeb gludo disgyblion gwahanol i fwy nag un safle ysgol.

Mewn rhai amgylchiadau, gall rhieni dderbyn tâl (ar hyn o bryd 25 ceiniog y filltir) am gludo disgyblion sy'n cwrdd â'r holl feini prawf, os barna'r AALl fod hynny'n fwy cost-effeithiol.

Casglu a Dychwelyd

Fel arfer cludir grwpiau o ddisgyblion i'r arosfannau bysiau neu bwyntiau codi, ac oddi yno. Darperir cludiant o ddrws-i-ddrws mewn amgylchiadau arbennig yn unig. Disgwylir i ddisgyblion wneud eu ffordd eu hunain i bwynt codi a leolir yn weddol agos i'w cartref. Ni fydd gan unrhyw ddisgybl/fyfyriwr sy'n gymwys i'w gludo ar lwybr cytundeb yr hawl i gael cludiant y tu allan i amserlen ddyddiol arferol y cytundeb hwnnw.

Apeliadau

Gall rhieni apelio yn erbyn y penderfyniad a gymerir gan yr AALl ac os penderfynant wneud hynny mae'n rhaid iddynt nodi'r rhesymau dros yr apêl. Dylid gwneud unrhyw apêl yn ysgrifenedig at y Prif Swyddog Cludiant a Rheoli Asedau yn y cyfeiriad a ddangosir isod.

Cludiant

Darperir Cludiant Ysgol yn seiliedig ar y pellter o'r ysgol i'r cartref. Fel rhieni mae gennych yr hawl i anfon eich plentyn i ysgol arall heblaw'r un agosaf. Cewch fynegi pa ysgol sydd orau gennych ar yr amod y deellir mai chi fydd yn gyfrifol am gludiant.

John Davies
Prif Swyddog Dysgu a Chyflawniad
16 Stryd y Arglwydd
Wrecsam
LL11 1LG

John Bradbury
Prif Swyddog yr Amgylchedd
Adran yr Amgylchedd
De Ffordd yr Abaty
Ystad Ddiwydiannol Wrecsam
Wrecsam
LL13 9PW